

# EISTEDDFOD RYNGWLADOL LLANGOLLEN

> **‘Yr unig beth rhyfeddol am wyrthiau, pa mor fach bynnag ydynt, ydyw eu bod yn digwydd’**
> *Dylan Thomas, Quite Early One Morning*

Mae’r gwyrthiau mae Dylan Thomas yn sôn amdanynt wedi bod yn nodwedd reolaidd o hafau Llangollen ers 1947. Ers 65 mlynedd, mae’r dref Gymreig hardd wedi cynnal Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.

**Yr Eisteddfod**

Bob mis Gorffennaf, mae tua 4,000 o gystadleuwyr brwd a 50,000 o ymwelwyr cyffrous yn tyrru i weld yr olygfa hynod a phrofi hud Eisteddfod Llangollen. Am un wythnos bob blwyddyn ym mis Gorffennaf, mae’r byd yn dod i’r dref fach Gymreig. Yn ystod y dydd, mae cerddorion a dawnswyr rhyngwladol yn cystadlu mewn dros 20 o gystadlaethau o ansawdd uchel. Bob gyda’r nos mae’r cystadleuwyr gorau a mwyaf lliwgar yn rhannu’r llwyfan mewn cyngherddau clodfawr a roddir gan artistiaid proffesiynol, llawer ohonynt wedi dechrau eu gyrfaoedd yn Llangollen. Mae Placido Domingo yn dweud mai yn Eisteddfod Ryngwladol 1968 y cafodd ei brofiad proffesiynol cyntaf yn y Deyrnas Unedig, ac ym 1955 bu Luciano Pavarotti yn cystadlu gyda’i dad yng nghystadleuaeth y corau meibion gydag eraill o dref Modena, ble’r oedd yn byw. Enillodd y côr ei adran, a dychwelodd Pavarotti ar gyfer cyngerdd ysblennydd ym 1995.

Yn fwy diweddar, yn 2012 **roedd un o berfformwyr gorau byd y sioe gerdd, John Owen-Jones, ymhlith yr artistiaid oedd yn perfformio ar lwyfan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen**. Roedd John Owen-Jones, sy’n fwyaf adnabyddus ar lwyfannau’r West End a Broadway, yn ymuno â’r cantorion clasurol Wynne Evans a Mark Llywelyn Evans, y soprano Fflur Wyn a Chôr CF1.

Yn ddiweddar, mae John Owen-Jones wedi ail-ymuno â sioe gerdd The Phantom of the Opera. Fe oedd yn chwarae’r brif ran yn y West End rhwng 2001 a 2005 a fe hefyd sydd wedi portreadu’r Phantom am y cyfnod hira’.

Sêr eraill 2012 oedd **Alfie Boe**, **Wynne Evans**, **Karl Jenkins** , **Lesley Garrett, y soprano Fflur Wyn, y canwr opera Mark Llywelyn Evans a Chôr CF1**. 2012 oedd blwyddyn gyntaf Eilir Griffiths fel Cyfarwyddwr Cerdd yr Eisteddfod a dyna pryd y cafodd Corws Eisteddfod Llangollen a Cherddorfa Eisteddfod Llangollen eu lansio am yn tro cyntaf ac y cafodd mwy o bwyslais ei roi ar y gystadleuaeth corau sioe.



*John Owen-Jones*